North West
SECURE DATA
ENVIRONMENT

NHS
Cheshire and Merseyside

# Sut rydym yn defnyddio eich data yn Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi

**Mae Amgylchedd Data Diogel (SDE) Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi yn llwyfan digidol sy'n cadw data iechyd a gofal. Mae'n caniatáu dadansoddi eich gwybodaeth iechyd a gofal ar gyfer ymchwil a chynllunio. Mae'r daflen hon yn esbonio pam mae hyn yn bwysig a'r opsiynau sydd gennych ynghylch sut y defnyddir eich data.**

Bydd SDE Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi yn ein helpu i ycmwhilio i driniaethau a therapïau newydd yn gyflymach nag erioed o'r blaen. Gall hefyd helpu gyda chynllunio gwasanaethau iechyd lleol. Gall wella gofal i bawb. Gall hyd yn oed achub bywydau.

Mae SDE Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi yn dwyn ynghyd wybodaeth o sawl maes pwysig o iechyd a gofal o fewn Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi, gan gynnwys:

- Meddygfeydd teulu
- Gofal cymdeithasol
- Gwasanaethau cymunedol
- Gwasanaethau ysbyty
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwasanaethau ambiwlans

## Mae'r data'n cynnwys:

- Manylion cyflyrau iechyd
- Unrhyw feddyginiaethau rydych yn eu cymryd
- Unrhyw alergeddau sydd gennych
- Canlyniadau profion diweddar
- Brechlynnau
- Cynlluniau gofal neu driniaeth
- Manylion unrhyw ofal cymdeithasol neu gymorth gofalwyr rydych yn ei dderbyn

Bydd gennych gofnodion ar wahanol systemau electronig. Meddygfeydd, ysbytai, gwasanaethau ambiwlans a chartrefi gofal defnyddio systemau unigol i ofalu am eu defnyddwyr gwasanaeth Rydym wedi datblygu ffordd ddiogel o ddod â'r wybodaeth hon ynghyd. Mae hyn yn cefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gofalu amdanoch yn well.

Mae data iechyd a gofal eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn ymchwil. Bydd Secure Data Environments yn safoni'r broses hon i'w gweud yn fwy effeithlon a gwella diogelwch data.

Crëwyd SDE Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi gan GIG Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi gyda'r lefelau cryfaf posibl o breifatrwyd a diogelwch.

- Nid yw'n defnyddio unrhyw wybodaeth sy'n eich adnabod (dileu eich enw, eich cyfeiriad a'ch dyddiad geni).
- Mae'n diogelu eich gwybodaeth er mwyn sicrhau cyfrinachedd.
- Mae'n defnyddio'r lefel uchaf o ddiogelwch seiber.
- Mae'r adolygu ymchwilwyr a'u rhesymau dros ddefnyddio'ch gwybodaeth.
- Mae'n rheoli mynediad at ich gwybodaeth gyfrinachol drwy atal data rhag gadael SDE Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi.

## Gallwch benderfynu sut mae eich data yn cael ei rannu

Gallwch ganiatáu i'ch data gael ei ddefnyddio at bob diben cynlunio, at rai ohonynt neu at ddim un ohonynt. Isod mae'r gwahanol opsiynau sydd ar gael i chi.

- **Rydych yn hapus i'ch data gael ei ddefnyddio ar gyfer gofal, ymchwil a chynllunio.**
  Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth os ydych chi eisiau eich gwybodaeth iechyd a gofal i gefnogi ymchwil a chynllunio drwy SDW Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi.

- **Nid ydych am i'ch data gael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil a chynllunio yn Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi, ond rydych yn hapus iddo gael ei ddefnyddio'n genedlaethol.**
  Os nad ydych am i'ch data gael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau ymchwil lleol, gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth **optio allan data lleol** drwy ffonio **0151 351 8888** neu e-bostio
  dataintoaction@cheshireandmerseyside.nhs.uk
  Gallwch ddarganfod pa ymchwil lleol sy'n cael ei chynnal drwy fynd i
  https://dataintoaction.cheshireandmerseyside.nhs.uk/secure-data-environment

- **Rydych chi am atal eich meddygfa rhag rhannu eich data ar gyfer ymchwil a chynllunio, ond rydych chi'n hapus i ysbytai a darparwyr eraill wneud hyn.**
  HapusOs nad ydych am i ddata personol, cyfrinachol a gedwir gan eich meddygfa gael ei ddefnyddio at ddibenion y tu hwnt i'ch gofal, gallwch gofrestru ar gyfer **'Optio Allan Math 1'** I wneud hyn, gallwch lawrlwytho ffurflen optio allan Math 1 a'i dychwelyd at eich meddygfa. Ni fyddai hyn yn berthnasol i ysbytai a darparwyr gofal iechyd a allai barhau i ddefnyddio'ch gwybodaeth ar gyfer ymchwil a chynllunio. Gallwch ddarganfod rhagor ar wefan GIG Lloegr: www.nhs.uk/using-the-nhs/about-the-nhs/opt-out-of-sharing-your-health-records

- **Nid ydych am i'ch data gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ymchwil a chynllunio.**
  Os ydych am atal eich data rhag cael ei ddefnyddio at ddibenion ymchwil a chynllunio, gallwch ddefnyddio'r **gwasanaeth optio allan data cenedlaethol**. Gellir gweld neu newid yr optio allan ar unrhyw adeg drwy wefan GIG Lloegr: www.nhs.uk/your-nhs-data-matters

- **Nid ydych am i'ch data gael ei rannu ar gyfer gofal, ymchwil a chynllunio.**
  Os nad ydych am i'ch data gael ei rannu o gwbl, gallwch godi **Hawl i Wrthod - Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data** gyda'ch meddygfa Mae gennych yr hawl i wrthod ar unrhyw adeg, ond gofynnir i chi feddwl yn ofalus cyn gwneud hyn. Byddai'r opsiwn hwn yn atal gweithwyr gofal iechyd proffesiynol rhag gweld eich cofnodion o wasanaethau eraill. Gallai hyn ohirio gwybodaeth hanfodol os oes angen cymorth iechyd neu ofal cymdeithasol arnoch - er enghraifft, yn ystod ymweliad ag Adran Achosion Brys. Byddai eich data yn parhau i gael ei gofnodi gan wasanaethau fel rhan o'ch gofal uniongyrchol. Mae gan eich meddygfa yr hawl i beidio â gweithredu eich cais os ydynt yn teimlo nad yw hynny er eich budd gorau.

Gallwch ddarganfod rhagor am SDE Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am sut i optio allan neu optio i mewn unwaith eto i'ch data gael ei ddefnyddio, drwy fynd i: https://dataintoaction.cheshireandmerseyside.nhs.uk/secure-data-environment

**Fel arall, gallwch:**

**Ein ffonio ar 0151 351 8888**

**Anfon e-bost atom:**
dataintoaction@cheshireandmerseyside.nhs.uk

**Ysgrifennu atom:** Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth,
GIG Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi, No 1 Lakeside, 920 Centre Park, Warrington, WA1 1QY

**Os hoffech weld y wybodaeth hon mewn ieithoedd neu fformatau eraill, cysylltwch â:**
dataintoaction@cheshireandmerseyside.nhs.uk

Mae gan y GIG Grŵp Ymgynghorol Cyfrinachol sy'n asesu ceisiadau i ddefnyddio data iechyd a gofal at ddibenion heblaw gofal uniongyrchol. I gael rhagor o wybodaeth am gais GIG Swydd Gaerlleon a Glannau Mersi, ewch i www.hra.nhs.uk lle gallwch ddod o hyd i gofrestr o geisiadau cymeradwy a'u dogfennaeth ategol.

Cyfeirnod CAG heb fod yn ymchwil
24/CAG/0033

Ymchwil Cyfeirnod CAG
23/CAG/0147